



Gwahoddiad i Dendro ar gyfer darparu Fframwaith Cynhyrchu Fideos

Cyfeirnod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru:	LSHW/003/2025
Cyswllt Caffael:	Adam James-Price adam.james-price@lshubwales.com

MASNACHOL A CHYFRINACHOL

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf
3 Assembly Square
Bae Caerdydd
CF10 4PL



1. Cefndir

1.1 Sefydlwyd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn 2014 ac mae'n gwmni preifat cyfyngedig drwy warant. Llywodraeth Cymru yw ei unig aelod ac mae'n cael ei reoli gan Fwrdd Cyfarwyddwyr annibynnol.

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran arloesedd ym maes iechyd, gofal a llesiant. Ein nod yw helpu pobl Cymru i elwa ar well gofal iechyd a llesiant economaidd. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy weithio gyda phartneriaid arloesol i ddod o hyd i atebion ar gyfer y GIG, gofal iechyd a darparwyr gofal cymdeithasol.

1.2 Rôl Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw:

- **Cynnull** diwydiant, gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r byd academiaidd i rannu syniadau, codi ymwybyddiaeth o anghenion, canfod cyfleoedd ar gyfer cyd-ddatblygu atebion a rhannu gwybodaeth, a meithrin cydweithio.
- **Integreiddio'r** ecosystem arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gan ddarparu seilwaith ar gyfer cydweithio gwell, diwallu anghenion y diwydiant o ran rhyngweithio, cefnogi'r system i ddod yn ysgogydd mwyaf pwerus y wlad o ran arloesi er budd y bobl a'n heconomi.
- **Cyflymu'r** broses o fabwysiadu arloesi trawsnewidiol, gan ganfod cyfleoedd addawol i gefnogi newid yn y system a chyflawni llif o arloesi fesul cam.
- **Eiriol** dros iechyd a chyfoeth Cymru, gan arddangos rhagoriaeth a chyfleoedd i gydweithio, gan sicrhau bod gan Gymru fewnbwn i bolisïau'r Deyrnas Unedig a'i bod yn denu buddsoddiad.

1.3 Mae rhagor o gyd-destun ynghylch gweledigaeth Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru isod:

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran arloesi ym maes iechyd, gofal a lles.

Pwy ydym ni

Rydym yma i helpu i sbarduno arloesi ysbrydoledig yn y gwyddorau bywyd i gyrraedd y rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cysylltwyr, hwyluswyr ac ysgogwyr ydym ni. Mae ein tîm yn gweithio fel rhyngwyneb deinamig sy'n cefnogi diwydiant, sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau academiaidd sy'n rhannu'r un nod â ni, sef defnyddio syniadau newydd i reoli, osgoi ac atal iechyd gwael.

Mae ein deialog agored â darparwyr rheng flaen yn golygu bod gennym ni ddealltwriaeth ddofn o'r heriau a'r blaenoriaethau pwysigaf sy'n wynebu'r sector. Hefyd, mae ein perthynas â sefydliadau academiaidd allweddol yn golygu ei bod hi'n symlach cael mynediad at brofion ac ymchwil. Mae hynny'n golygu, pan fydd arloeswyr yn cysylltu â ni, gallwn helpu i siapia eu syniadau i'w gwneud mor berthnasol â phosibl i'r defnyddiwr terfynol. Byddwn yn mynd ag anghenion a blaenoriaethau rheng flaen at arloeswyr er mwyn iddynt gael eu datblygu'n benodol hefyd.

Rydym yn dod â'r holl grwpiau hyn at ei gilydd: i wrando, i rannu ac i archwilio. Yn syml, rydym yn paru anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ag arloesedd er mwyn sbarduno cynnydd, gyda'n gilydd.

Rydym ni yma i helpu i wireddu'r cyfan.



Ewch i wefan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn: lshubwales.com/cy

- 1.4 Mae cyd-destun ychwanegol ar gael yn [fideo esboniadol rhagarweiniol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru](#) a [How we're supporting digital innovation in Wales](#).

2. Trosolwg o'r Gofynion

- 2.1 Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ceisio caffael a gweithredu cytundeb fframwaith ar gyfer darparu Cynhyrchiad Fideo.
- 2.2 Mae angen amrywiaeth o fideos ar Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i helpu i fynegi sut mae'r sefydliad yn ychwanegu gwerth at yr ecosystem arloesi gwyddorau bywyd yng Nghymru drwy adrodd straeon, dod â phrosiectau'n fyw drwy astudiaethau achos, cyfweiliadau â rhanddeiliaid a fideos esboniadol.
- 2.2.1 Rhaid i bob fideo fod o ansawdd uchel, gan ddangos yn glir sut mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi cefnogi sefydliadau iechyd, gofal a diwydiant i gyflwyno a hyrwyddo arloesi.
- 2.3 Fel arwydd o ofyniad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, darperir enghreifftiau isod o fideos Cymraeg, Saesneg a dwyieithog Cymraeg/Saesneg presennol isod:
- Cymraeg:
 - [Biopsïau hylif ar gyfer Cancer yr Ysgyfaint, QuicDNA](#)
 - [Profion gwaed ar gyfer Cancer y Coluddyn, CanSense](#)
 - Saesneg:
 - [Innovating Wales – Liquid Biopsies for Lung Cancer, QuicDNA](#)
 - [Innovating Wales – Blood tests for Bowel Cancer, CanSense](#)
 - Dwyieithog:
 - [Ni yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru | We are Life Sciences Hub Wales](#)
- 2.4 Y bwriad yw dyfarnu safle ar y fframwaith ar gyfer un cyflenwr. Bydd pob gweithgarwch sy'n ofynnol gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn drefniant yn ôl y gofyn drwy'r fframwaith fel pecyn gwaith penodol.
- 2.5 Hyd y cytundeb fframwaith arfaethedig yw 12 mis i gychwyn, gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at 24 mis arall, mewn rhandaliadau 12 mis ar wahân bob tro, yn ôl disgrisiwn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unig.
- 2.6 Y gwerth a ragwelir ar gyfer y cytundeb fframwaith yw (hyd at) oddeutu £20,000 (heb gynnwys TAW) y flwyddyn, ar gyfer uchafswm gwerth posibl o £60,000 (heb gynnwys TAW) dros gyfnod llawn y fframwaith.
- 2.6.1 Bydd unrhyw newid i'r uchafswm gwerth blynyddol adeg unrhyw estyniad yn cael ei gadarnhau ymlaen llaw gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- 2.6.2 Nid yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ymrwymo o gwbl i werth na swm y gwaith i'w wneud yn ôl y galw drwy'r Fframwaith Cynhyrchu Fideos, os caiff ei ddyfarnu.
- 2.7 Mae'r Fanyleb lawn i'w gweld isod yn [Rhan 13](#).

3. Cyflwyno Ymatebion

- 3.1 Mae'r amserlen gaffael arfaethedig wedi'i nodi isod. Sylwch mai enghreifftiol yn unig yw'r dyddiadau a nodir ac mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cadw'r hawl i'w newid ar unrhyw adeg yn ystod y broses heb atebolrwydd.

Gweithgaredd	Dyddiad	Cyfrifol
Cyhoeddi'r Gwahoddiad i Dendro	29/07/2025	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Dyddiad cau ar gyfer Cyflwyno Cwestiynau am Eglurhad	20/08/2025	Cyflenwr
Dyddiad cau ar gyfer Cyflwyno Ymatebion	02/09/2025	Cyflenwr
Gwerthuso (gan gynnwys pob cymeradwyaeth fewnol)	03/09/2025 i 26/09/2025	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Dyfarniad Fframwaith	03/10/2025	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Dechrau'r Fframwaith	06/10/2025	Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Chyflenwr

- 3.2 Rhaid cyflwyno tendrau mewn fformat electronig i'r cyfleuster Blwch Postio ar gwerthwchigymru.gov.uk erbyn **14:00 ddydd Mawrth 2 Medi 2025**. Efallai na fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

Mae [Canllaw i Gyflenwyr - Blwch Postio](#) ar gael yn yr adran 'Cymorth a Chefnogaeth' ar wefan gwerthwchigymru.

- 3.3 Dylid anfon cwestiynau am eglurhad (ymholiadau) mewn perthynas â'r tendr at Adam James-Price yn tenders@lshubwales.com. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwestiynau am eglurhad mewn perthynas â'r tendr yw **17:00 ddydd Mercher 20 Awst 2025**. Efallai na fydd cwestiynau am eglurhad sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hateb, yn ôl disgrisiwn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unig.

- 3.3.1 Yn ôl disgrisiwn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unig, bydd cwestiynau am eglurhad a'u hymatebion yr ystyrir eu bod yn addas ac yn briodol i'w dosbarthu (h.y. nad ydynt yn fasnachol sensitif nac yn debygol o effeithio ar fuddiannau cystadleuol unrhyw barti arall) yn cael eu rhannu er budd yr holl dendrwy'r sy'n cymryd rhan.

- 3.4 Petai'r rhai sy'n tendro yn dod ar draws unrhyw broblemau wrth anfon e-bost at y tenders@lshubwales.com cyfeiriad (gwallau anfon ac ati), gofynnir iddynt gysylltu ag Adam James-Price yn adam.james-price@lshubwales.com yn lle hynny.

- 3.5 Gellir derbyn ymatebion yn Gymraeg neu Saesneg. Ni fydd tendrau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Byddir yn gohebu/cyfathrebu wedi hynny yn unol ag iaith y tendr gwreiddiol.

4. Gofynion Gweithdrefnol ac Ymateb

- 4.1 Mae'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro hwn, ynghyd ag unrhyw ddogfennau tendro cysylltiedig eraill a ddarperir i'r rheini sy'n tendro mewn cysylltiad â'r broses gaffael hon, yn cynnwys gofynion gweithdrefnol ac ymateb y mae'n rhaid i'r rheini sy'n tendro eu dilyn. Gall methu â chydymffurfio

ag unrhyw ofyniad gweithdrefnol neu ofyniad i ymateb arwain at wahardd y sawl sy'n tendro o'r broses gaffael ac annilysu eu hymateb, yn ôl disgrisiwn llwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

5. Derbynn Tendrau

- 5.1 Ac eithrio gwall amlwg, neu rywbeth y cytunir arno'n benodol fel arall gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'r sawl sy'n tendro, cymerir bod cynnwys yr ymatebion tendr a gyflwynwyd mewn perthynas â'r caffaeliad hwn yn rhwymo'r sawl sy'n tendro ac yn agored i'w derbyn gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- 5.2 Cyn cyflwyno eu hymateb, y rhai sy'n tendro sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu staff, a staff unrhyw is-gontractwyr, yn gwbl ymwybodol o'r holl ofynion technegol, masnachol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses gaffael hon.
- 5.3 Nid yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ymrwmo i dderbyn y tendr isaf nac unrhyw dendr a dderbynnir mewn ymateb i'r broses gaffael hon. Ni chymerir bod unrhyw gynnyg wedi'i dderbyn oni bai fod y sawl sy'n tendro wedi cael gwybod am hynny yn ysgrifenedig.
- 5.2 Ni fydd unrhyw ran o'r ymateb i'r tendr a gyflwynwyd yn cael ei dychwelyd i'r sawl sy'n tendro.

6. Addasu'r Broses Gaffael

- 6.1 Ni fydd y ddogfen Gwahoddiad i Dendro hon, unrhyw hysbysiad tendro cyfatebol nac unrhyw wybodaeth ychwanegol a roddir fel rhan o'r broses gaffael hon yn cael eu hystyried yn ymrwymiad nac yn sylw ar ran Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (nac unrhyw berson arall) i ymrwmo i drefniadau contractiol.
- 6.2 Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cadw'r hawl i derfynu'r broses gaffael hon, neu ei chanslo fel arall ar unrhyw adeg yn ystod y broses, a/neu beidio â dyfarnu unrhyw gontract fel arall o ganlyniad i'r broses gaffael hon. O ran lotiau, nid yw unrhyw benderfyniad gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i beidio â dyfarnu llawer yn atal Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru rhag dyfarnu'r lotiau sy'n weddill.
- 6.3 O ran derfynu neu ganslo'r broses gaffael a/neu beidio â dyfarnu unrhyw gontract fel arall o ganlyniad i'r broses gaffael hon; ni fydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn atebol am unrhyw gostau a ysgryyddir gan y sawl sy'n tendro o ganlyniad i'r cam gweithredu hwn.
- 6.4 Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cadw'r hawl i wneud y canlynol ar unrhyw adeg:
- Cyhoeddi diwygiadau, addasiadau neu wybodaeth ychwanegol i unrhyw ddogfennau sy'n rhan o'r broses gaffael hon, gan gynnwys y fanyleb;
 - Ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n tendro egluro yn ysgrifenedig unrhyw ran o'u hymateb a'r tendr a/neu ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Os na fydd y sawl sy'n tendro yn ymateb yn unol â'r cyfarwyddiadau, gallai hynny annilysu eu cais am dendr;
 - Newid yr amserlen gaffael ar gyfer y broses gaffael hon;
 - Ail-gynnal unrhyw ran o'r broses gaffael ar yr un sail neu ar sail arall; a
 - Diwygio'r broses gaffael mewn ffordd arall a ddisgrifir yma.



- 6.5 Mae'r Fanyleb (Rhan 13) yn nodi gofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn llawn. Yn ystod oes unrhyw gytundeb a roddir ar waith, mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau i'r fanyleb, i'r gwasanaeth neu i'r gofynion eraill.
- 6.6 Bydd newidiadau i'r Fanyleb yn cael eu rhoi ar waith drwy gyflwyno diwygiadau ysgrifenedig i bawb y mae'r newidiadau'n effeithio arnynt. Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sydd â'r unig hawl i ymgymryd â newidiadau fel hyn.

7. Treuliau a Cholledion yn y Tendir

- 7.1 Rhaid i'r rheini sy'n tendro ysgwyddo'r holl gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno eu hymateb i'r tendr ac unrhyw gostau pellach cyn dyfarnu'r contract.
- 7.2 Ni fydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyfrifol am dreuliau na cholledion y gallai'r sawl sy'n tendro eu hwynebu wrth baratoi a chyflwyno eu hymateb i'r tendr ac wrth gymryd rhan fel arall yn y broses gaffael hon, ni waeth sut y'i cynhelir na beth yw canlyniad y broses gaffael.

8. Prisiau

- 8.2 Cymerir bod y prisiau a nodir yn yr ymateb i'r tendr yn cynrychioli'r gwerth cynhwysol llawn ar gyfer darparu'r gofynion fel y'u disgrifir yn y Fanyleb (Rhan 13), gan gynnwys yr holl gostau a threuliau, risgiau a rhwymedigaethau a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro neu a fydd yn ymhlyg ynddo.
- 8.3 Rhaid nodi pob pris mewn sterling heb gynnwys Treth ar Werth (TAW).

9. Telerau Talu

- 9.1 Yn unol â Deddf Caffael 2023, bydd taliadau'n cael eu gwneud cyn pen 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys, a bydd anfonebau'n cael eu cyhoeddi yn unol â'r rhestr daliadau y cytunwyd arni cyn dyfarnu'r contract, neu wrth ddyfarnu'r contract.
- 9.2 Er mwyn i anfoneb gael ei hystyried yn un ddilys ac yn un dderbyniol i'w thalu, rhaid ei hanfon yn electronig (h.y. drwy e-bost) a rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:
- Enw'r cyflenwr;
 - Disgrifiad o'r nwyddau, y gwasanaethau a/neu'r gwaith a gyflenwir i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (fel y bo'n berthnasol);
 - Y swm y gofynnir amdano; a'r
 - Rhif / cyfeirnod anfoneb unigryw.
- 9.3 Dylid cyflwyno pob anfoneb i invoices@lshubwales.com.
- 9.4 Os bydd anfoneb yn cael ei hystyried yn annilys a/neu os bydd anghydfod ynghylch y swm sy'n daladwy, bydd y cyflenwr yn cael gwybod cyn gynted ag y bo'n ymarferol a bydd y cyfnod talu o 30 diwrnod yn cael ei ystyried yn un dros dro nes bydd yr holl ymholiadau wedi cael eu datrys.

10. Manylion Cyfrinachol

- 10.1 Bydd y sawl sy'n tendro (p'un a yw ei gais yn cael ei dderbyn ai peidio) a phawb arall sy'n derbyn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro (p'un a yw'n cyflwyno ymateb i'r tendr ai peidio) yn trin manylion y ddogfen hon fel rhai preifat a chyfrinachol.
- 10.2 Bydd unrhyw gais a dderbynnir mewn ymateb i'r Gwahoddiad hwn i Dendro yn cael ei drin yn yr un modd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, ac eithrio pan wneir cais yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

11. Diogelwch

- 11.1 Rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus llynu'n gaeth wrth rwymedigaethau "Prosesydd Data" fel y nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) ac Erthygl 28 GDPR yr UE 679/2016 a ddargedwir. Yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, Pennod 2, y cyflenwr llwyddiannus sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddata personol sy'n cael ei brosesu wrth ddarparu gwasanaethau o dan y cytundeb hwn yn cael ei drin yn unol â'r safonau a nodir ym Mhennod IV. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, bydd Cytundeb Prosesu Data yn cael ei sefydlu rhwng y Cyflenwr llwyddiannus a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gan sicrhau y glynir yn llawn wrth ofynion Erthygl 28 o Ddeddf Diogelu Data 2018.
- 11.3 Mae'r cymalau canlynol yn berthnasol i contractau lle bydd gwybodaeth personol neu wybodaeth gyfrinachol arall yn cael ei defnyddio, ei dosbarthu neu ei thrin gan y Cyflenwr llwyddiannus ac unrhyw drydydd parti arall sy'n gysylltiedig â'r cytundeb:
- Bydd yn rhaid i weinyddion sy'n cadw data Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fod mewn lleoliad yn y DU a fydd wedi'i ddiffinio ymlaen llaw a rhaid rheoli mynediad i'r gweinyddion hynny a'i gyfyngu i unigolion hysbys awdurdodedig yn unig.
 - Rhaid i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gytuno ar unrhyw ddatganiad ynghylch y broses gaffael hon ac unrhyw wasanaeth dilynol a ddarperir gan y cyflenwr cyn ei gyhoeddi.
 - Rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus roi gwybod i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar unwaith am unrhyw achosion o dorri rheolau diogelwch, neu unrhyw amheuaeth o hynny, sy'n ymwneud â data Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unol â darpariaeth y Cytundeb Prosesu Data.

12. Gofyniad o Ran y Gymraeg

- 12.1 Bydd angen i'r cyflenwr llwyddiannus sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy'r contract hwn, pe bai'n cael ei ddyfarnu, yn cydymffurfio â gofynion polisi iaith Gymraeg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- 12.2 Dyma'r gofynion mewn perthynas â'r contract hwn:
- Rhaid cael tair fersiwn ag is-deitlau ar wahân o bob fideo a gynhyrchir: Cymraeg, Saesneg a dwyieithog Cymraeg/Saesneg (oni bai fod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn nodi fel arall); a
 - Rhaid i unrhyw gyswllt arall â'r cyhoedd na chaiff ei enwi uchod gydymffurfio ag egwyddor trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- 12.3 I gael rhagor o fanylion, ewch i: <https://lshubwales.com/cy/llywodraethu/iaith-gymraeg> a <https://www.llyw.cymru/y-gymraeg>

13. Manyleb

13.1 Cyflwyniad

13.1.1 Yn unol â Rhan 2 (Trosolwg):

- 2.1 Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ceisio caffael a gweithredu cytundeb fframwaith ar gyfer darparu Cynhyrchiad Fideo.
- 2.2 Mae angen amrywiaeth o fideos ar Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i helpu i fynegi sut mae'r sefydliad yn ychwanegu gwerth at yr ecosystem arloesi gwyddorau bywyd yng Nghymru drwy adrodd straeon, dod â phrosiectau'n fyw drwy astudiaethau achos, cyfweiliadau â rhanddeiliaid a fideos esboniadol.
- 2.2.1 Rhaid i bob fideo fod o ansawdd uchel, gan ddangos yn glir sut mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi cefnogi sefydliadau iechyd, gofal a diwydiant i gyflwyno a hyrwyddo arloesi.
- 2.3 Fel arwydd o ofyniad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, darperir enghreifftiau isod o fideos Cymraeg, Saesneg a dwyieithog Cymraeg/Saesneg presennol isod:
- Cymraeg:
 - [Biopsïau hylif ar gyfer Canser yr Ysgyfaint, QuicDNA](#)
 - [Profion gwaed ar gyfer Canser y Coluddyn, CanSense](#)
 - Saesneg:
 - [Innovating Wales – Liquid Biopsies for Lung Cancer, QuicDNA](#)
 - [Innovating Wales – Blood tests for Bowel Cancer, CanSense](#)
 - Dwyieithog:
 - [Ni yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru | We are Life Sciences Hub Wales](#)
- 2.4 Y bwriad yw dyfarnu safle ar y fframwaith ar gyfer un cyflenwr. Bydd pob gweithgarwch sy'n ofynnol gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn drefniant yn ôl y gofyn drwy'r fframwaith fel pecyn gwaith penodol.
- 2.5 Hyd y cytundeb fframwaith arfaethedig yw 12 mis i gychwyn, gyda'r opsiwn i ymestyn am hyd at 24 mis arall, mewn rhandaliadau 12 mis ar wahân bob tro, yn ôl disgrisiwn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unig.
- 2.6 Y gwerth a ragwelir ar gyfer y cytundeb fframwaith yw (hyd at) oddeutu £20,000 (heb gynnwys TAW) y flwyddyn, ar gyfer uchafswm gwerth posibl o £60,000 (heb gynnwys TAW) dros gyfnod llawn y fframwaith.
- 2.6.1 Bydd unrhyw newid i'r uchafswm gwerth blyneddol adeg unrhyw estyniad yn cael ei gadarnhau ymlaen llaw gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- 2.6.2 Nid yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ymrwymo o gwbl i werth na swm y gwaith i'w yn ôl y galw drwy'r Fframwaith Cynhyrchu Fideos, os caiff ei ddyfarnu.
- 13.1.2 Bydd gofynion unigol, manyleb a chyllideb benodol pob pecyn gwaith yn ôl y gofyn y gofynnir amdano yn ystod cyfnod y fframwaith yn amrywio ac yn dibynnu ar flaenoriaethau a gweithgarwch presennol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac yn cael eu disgrifio a'u nodi'n llawn ym mhob achos.

Bydd y themâu / gofynion cyffredin sy'n debygol (ond ddim yn bendant) o fod yn gyson yn y rhan fwyaf o'r trefniadau yn ôl y gofyn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Bydd y cynhyrchiad yn cael ei gwblhau yn unol â chanllawiau brand Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (mae'r canllawiau brand wedi cael eu cyhoeddi i gefnogi'r Gwahoddiad i Dendro er gwybodaeth);
- Bydd gan bob fideo dair fersiwn ag is-deitlau ar wahân: Cymraeg, Saesneg a dwyieithog Cymraeg/Saesneg (oni bai fod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn nodi fel arall);
- Cynhyrchu fideos diddorol a deniadol, gyda'r nod o ddenu cymaint o wylwyr â phosibl i godi proffil yr astudiaeth achos sy'n cael sylw ym mhob achos a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyffredinol;
- Darparu gwasanaethau ledled y DU, gan ganolbwyntio'n bennaf ar Gymru;
- Bydd y cyflenwr llwyddiannus yn casglu, yn cofnodi ac yn cadw cydsyniad ar gyfer prosesu data personol gan unrhyw/pob unigolyn sy'n cael eu ffilmio ym mhob achos;
- Rhaid i'r holl gynnwys fideo gael ei gynhyrchu yn unol â [safonau hygyrchedd Llywodraeth Cymru](#);
- Bydd y lleoliadau ffilmio'n amrywiol, ac yn debygol o gynnwys prif swyddfa Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol a'r diwydiant.
- Rhaid gwirio ansawdd yr holl gynnwys a gyflwynir i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i'w adolygu (yn Saesneg, yn Gymraeg ac yn ddwyieithog Cymraeg/Saesneg) cyn ei gyflwyno. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn disgwyl allbwn o ansawdd uchel o ran cynnwys Cymraeg a dwyieithog sy'n cael ei gynhyrchu i'r un safon â'r cynnwys Saesneg.

13.1.3 Mae'r gofyniad am Astudiaethau Achos Fideo yn cael ei rannu rhwng swyddogaethau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, Cyfathrebu a Marchnata, Arloesi a Mabwysiadu, ac mae'n debygol y bydd rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu;
- Pennaeth Adnoddau Dynol a Llesiant;
- Pennaeth Partneriaethau;
- Arweinwyr Rhaglenni;
- Rheolwr Cyfryngau Digidol; a
- Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfiaeth (o ran ystyriaethau cydymffurfio, gan gynnwys GDPR).

13.2 Y Gwasanaethau

13.2.1 Fel uchod, bydd gofynion penodol y trefniant yn ôl y gofyn a'r gyllideb a ddyrannwyd yn cael eu cadarnhau ar gyfer pob pecyn gwaith unigol i'w osod yn ystod cyfnod y fframwaith, ond i roi ryw fath o syniad mae'r gofynion yn debygol o gynnwys y canlynol:

- **3 Fideo Recriwtio, sy'n debygol o bara hyd at 1.5 munud yr un:**

- Mae pob Fideo Recriwtio yn debygol o gynnwys cyfweld ag 1 cydweithiwr mewnol;
- Mae pob Fideo Recriwtio yn debygol o fod angen 1 diwrnod ffilmio i gynnwys 2 leoliad fesul fideo;
- Darparu delweddau B-roll fesul Fideo Recriwtio;
- Sawl gogwydd fideo sy'n addas i wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol;
- Brandio a datblygu graffeg i gefnogi'r holl waith cynhyrchu fideos (cyflwyniad, diweddglô, logos ac ati);
- Cynhyrchiad i gynnwys isdeitlau Cymraeg a Saesneg; a
- Lluniau a chlipiau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

- **2 Astudiaeth Achos Fideo, sy'n debygol o bara 3/4 munud yr un;**

- Mae pob Astudiaeth Achos Fideo yn debygol o gynnwys cyfweld rhwng 1-3 o randdeiliaid yr un;
- Mae pob Astudiaeth Achos Fideo yn debygol o fod angen 2-3 diwrnod ffilmio i gynnwys 2 leoliad fesul fideo;
- Darparu delweddau B-roll fesul Astudiaeth Achos Fideo;
- Sawl gogwydd fideo sy'n addas i wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol;
- Brandio a datblygu graffeg i gefnogi'r holl waith cynhyrchu fideos (cyflwyniad, diweddglô, logos ac ati);
- Cynhyrchiad i gynnwys isdeitlau Cymraeg a Saesneg; a
- Lluniau a chlipiau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

- **Delweddau B-roll**

- Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn mynnu bod y cyflenwr llwyddiannus yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol i ffilmio fideos B-roll yn rheolaidd i'w defnyddio mewn ffilmiau yn y dyfodol sy'n helpu i ddangos sut mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn darparu gwasanaethau.

13.2.1.1 Bydd fideos Cymraeg yn cael eu cynhyrchu yn ogystal â chynnwys Saesneg a dwyieithog Cymraeg/Saesneg lle bynnag y bo modd, i'w cadarnhau gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ymlaen llaw ym mhob achos.

13.2.5 Mae pob fideo yn debygol (ond ddim yn bendant) o gynnwys pob un/rhai o'r themâu / gofynion cyffredin a amlinellir yn adran 13.1.2.1.

- 13.2.1.3 Unwaith eto, er mwyn osgoi amheuaeth, sylwch fod y gofynion dangosol a amlinellir yn 13.2.1 uchod wedi cael eu darparu fel arwydd yn unig ar hyn o bryd ac ni ddylid ystyried eu bod yn ddiffiniol, yn gynhwysfawr nac yn derfynol. Nid yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ymrwymo o gwbl i'r gofynion nac i werth na swmp y gweithgarwch yn ôl y galw i'w osod yn ystod cyfnod y fframwaith.
- 13.2.3 Yn ogystal â'r gofynion cynhyrchu tebygol a amlinellir uchod yn 13.2.1 efallai y bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn mynnu bod deunydd B-roll ychwanegol yn cael ei ddarparu. Bydd y gofyniad, gan gynnwys y cynnwys tebygol a nifer y lleoliadau ffilmio a'r diwrnodau ffilmio, yn cael ei gadarnhau rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'r cyflenwr llwyddiannus.
- 13.2.4 Dylid anfon fideos gorffenedig at Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru naill ai mewn fformat .mov neu .mp4. Byddwn yn cytuno ar y dull o rannu fideos gorffenedig. Yn y gorffennol, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi defnyddio WeTransfer a Dropbox, ac yn ymwybodol o Frame.io.
- 13.2.5 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr holl hawliau eiddo deallusol sy'n ymwneud â cynhyrchu fideo a delweddau B-roll a gwblheir ar ran Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gan y cyflenwr(wyr) llwyddiannus yn cael eu trosglwyddo i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar ôl cyhoeddi a derbyn y cynnwys wedi'i gwblhau.
- 13.2.6 Rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus feddu ar ddigon o allu yn y Gymraeg (naill ai'n fewnol neu'n allanol) er mwyn darparu cynnwys Cymraeg o safon. Rhaid rhoi'r un gofal ac ystyriaeth i'r cynnwys Cymraeg â'r cynnwys Saesneg.
- 13.2.7.1 Rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus sicrhau eu bod yn darparu cynnwys cywir ac o ansawdd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac ni ddylai ddibynnu ar Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i adolygu a chywiro'r holl ddarpariaeth Gymraeg ar ôl ei dderbyn.
- 13.2.8 Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fydd yn gyfrifol am gyfieithu isdeitlau i'r Gymraeg, a bydd yn darparu isdeitlau wedi'u cyfieithu i'r cyflenwr llwyddiannus i'w defnyddio. Y cyflenwr llwyddiannus fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr is-deitlau Cymraeg a ddarperir yn cael eu mewnbynnu'n briodol ac yn effeithiol i'r fideo(s), gan gyd-fynd â'r deialog ac ati.
- 13.2.8.1 Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fydd yn gyfrifol am gyfieithu Cymraeg llafar i isdeitlau Saesneg, a bydd yn darparu isdeitlau wedi'u cyfieithu i'r cyflenwr llwyddiannus i'w defnyddio. Y cyflenwr llwyddiannus fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr isdeitlau Saesneg a ddarperir yn cael eu mewnbynnu'n briodol ac yn effeithiol i'r fideo(s), gan gyd-fynd â deialog ac ati.
- 13.2.9 Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wrthi'n cwblhau ei amserlen flynyddol ar gyfer cynhyrchu a rhyddhau cynnwys fideo a bydd yn rhannu'r cynllun gorffenedig â'r cyflenwr llwyddiannus ar ôl iddo gael ei gwblhau. Mae awgrym cynnar o amserlenni a darpariaeth cynhyrchu ar gyfer rhan o'r gofyniad, yn unol â'r gofynion dangosol ehangach fel yr amlinellir uchod yn 13.2.1, ar gael isod:
- 3 Fideo Recriwtio: eu hangen tua Hydref / Tachwedd 2025
 - 1 x Fideo Astudiaeth Achos: ei angen tua Hydref / Tachwedd 2025
 - 1 x Fideo Astudiaeth Achos: ei angen tua Ionawr 2025

13.3 Safonau

- 13.3.1 Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn mynnu bod holl weithwyr y cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus sydd, at ddibenion y cytundeb, yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr Hwb

Gwyddorau Bywyd Cymru, yn ymwybodol o'r polisïau a'r canllawiau perthnasol a ysgrifennwyd ar gyfer gweithwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac yn cydymffurfio â'u hegwyddorion.

- 13.3.2.2 Bydd yr holl bolisïau perthnasol yn cael eu rhoi i'r cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus adeg dyfarnu'r Fframwaith.
- 13.3.3 Rhaid cwblhau pob cynhyrchiad fideo gan lynu at ganllawiau brand Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. (Mae'r canllawiau brand wedi cael eu cyhoeddi i gefnogi'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro (er gwybodaeth).
- 13.3.4 Rhaid i'r Contractwr naill ai fod ag ardystiad Cyber Essentials neu ISO27001 dilys (os nad y ddau) ar waith adeg dyfarnu'r contract, o leiaf
- 13.3.5 Mae'n rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys, yn ddigyfngiad, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) pan fydd yn delio â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- 13.3.6 Yn ystod cyfnod y cytundeb mae'n rhaid i'r Cyflenwr llwyddiannus sicrhau bod data'n cael eu rheoli'n briodol bob amser, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 (Pennod 2) (GDPR y DU).
- 13.3.7 Bydd y cyflenwr llwyddiannus yn gyfrifol am gasglu, cofnodi a chadw cydsyniad ar gyfer prosesu data personol gan unrhyw/pob unigolyn sy'n cael ei ffilmio ym mhob achos, a bydd ffurflenni caniatâd yn cael eu darparu i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ochr yn ochr â'r astudiaethau achos fideo gorffenedig.
- 13.3.8 Rhaid cwblhau'r holl waith ffilmio a chynhyrchu'r fideo yn unol ag unrhyw/holl [safonau Hygyrchedd perthnasol Llywodraeth Cymru](#).
- 13.3.9 Gan ailadrodd yr uchod, dylid anfon fideos gorffenedig at Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru naill ai mewn fformat .mov neu .mp4. Byddwn yn cytuno ar y dull o rannu fideos gorffenedig. Yn y gorffennol, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi defnyddio WeTransfer a Dropbox, ac yn ymwybodol o Frame.io.

13.4 Cyfrifoldebau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

- 13.4.1 Bydd cyfrifoldebau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer pob achos o ffilmio a chynhyrchu fideos yn cael eu diffinio a'u cadarnhau cyn pob trefniant yn ôl y gofyn.
- 13.4.2 Mewn egwyddor, mae cyfrifoldebau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ym mhob achos yn debygol o gynnwys darparu briff manwl, cefnogi ymgysylltu â rhanddeiliaid ac archebu a chydlynu adborth a diwygiadau.
- 13.4.3 Gan ailadrodd yr uchod, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fydd yn gyfrifol am gyfieithu isdeitlau i'r Gymraeg, a bydd yn darparu isdeitlau wedi'u cyfieithu i'r cyflenwr llwyddiannus i'w defnyddio. Y cyflenwr llwyddiannus fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr is-deitlau Cymraeg a ddarperir yn cael eu mewnbynnu'n briodol ac yn effeithiol i'r fideo(s), gan gyd-fynd â'r deialog ac ati.
- 13.4.3.1 Gan ailadrodd yr uchod unwaith eto, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fydd yn gyfrifol am gyfieithu Cymraeg llafar i isdeitlau Saesneg, a bydd yn darparu isdeitlau wedi'u cyfieithu i'r cyflenwr llwyddiannus i'w defnyddio. Y cyflenwr llwyddiannus fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr isdeitlau Saesneg a ddarperir yn cael eu mewnbynnu'n briodol ac yn effeithiol i'r fideo(s), gan gyd-fynd â deialog ac ati.

13.5 Cadw Cofnodion ac Adrodd

- 13.5.1 Cyn ffilmio, rhaid i'r cyflenwr llwyddiannus gasglu a chofnodi cydsyniad gan bob unigolyn sy'n cael ei ffilmio ar gyfer prosesu ei ddata personol (yn unol â gofynion GDPR y DU). Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth o gydsyniad a gasglwyd yn ystod cyfnod y fframwaith.
- 13.5.2 Wrth ddarparu'r gwasanaeth, mae'n rhaid i'r Cyflenwr llwyddiannus sicrhau bod data'n cael eu rheoli'n briodol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 (Pennod 2) (GDPR y DU).

13.6 Llywodraethu

- 13.6.1 Bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn penodi rheolwr contractau i fod yn bwynt cyswllt uniongyrchol rhwng y sefydliad a'r cyflenwr llwyddiannus.
- 13.6.2 Rhaid i'r cyflenwyr llwyddiannus hefyd benodi rheolwr contractau penodol i fod yn bwynt cyswllt uniongyrchol rhwng eu sefydliadau a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- 13.6.3 Dylid tynnu sylw'r rheolwr/rheolwyr contractau i ddechrau at unrhyw/pob problem, risg ac ati sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.
- 13.6.4 Bydd Rheolwr Caffael Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gweithredu fel pwynt uwchgyfeirio cychwynnol ar gyfer y ddau barti.
- 13.6.5 Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Swyddog Diogelu Data a fydd yn bwynt cyswllt ar gyfer mesurau cydymffurfiad data yn ôl yr angen.

13.7 Rheoli Ansawdd a Pherfformiad

- 13.7.1 Bydd ansawdd yn cael ei reoli drwy gydol tymor y fframwaith; bydd gofynion ansawdd penodol yn cael eu cadarnhau ym mhob achos yn ôl y gofyn.
- 13.7.2 Wrth ddarparu gwasanaeth (gweithgarwch yn ôl y gofyn) cynhelir amserlen o gyfarfodydd adolygu rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'r cyflenwr/cyflenwyr llwyddiannus er mwyn monitro cynnydd, perfformiad ac ansawdd parhaus.
- 13.7.3 Gallai'r gofynion ansawdd tebygol ym mhob trefniant yn ôl y gofyn, ar ffurf Cytundebau Lefel Gwasanaeth y prosiectau, gynnwys nifer y golygiadau, cadw at amserlenni prosiectau, ac ati.
- 13.7.4 Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn disgwyl i'r gwaith o gynhyrchu cynnwys fideo Cymraeg fod yn gywir ac o ansawdd uchel cyn cael ei gyflwyno i'w adolygu / wedi'i gwblhau. Fel uchod (13.2.5.1), ni ddylai'r cyflenwr llwyddiannus ddibynnu ar Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i adolygu a chywiro'r holl ddarpariaeth Gymraeg ym mhob achos.

13.8 Cynllunio ar gyfer Mynediad a Gadael

- 13.8.1 Bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cynnal cyfarfod cychwynol â'r cyflenwr llwyddiannus er mwyn cael trafodaeth fanwl am y gofynion penodol mewn perthynas â phob gofyniad unigol yn ôl y gofyn, gan gynnwys trafodaeth i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r negeseuon cywir i'w cynnwys yn y fideos gofynnol, yn ogystal â'r dôn.
- 3.8.2 Ar ddiwedd y cytundeb fframwaith bydd gofyn i'r cyflenwr/cyflenwyr sy'n gadael ddychwelyd yr holl ddogfennau a/neu ddata perthnasol nad oes eu hangen mwyach at ddibenion cyfreithiol neu reoleiddiol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a rhoi sicrwydd bod yr holl ddogfennau a/neu ddata eraill wedi'u dinistrio.



13.9 Hyd y Fframwaith

- 13.9.1 Os caiff ei ddyfarnu, disgwylir i'r fframwaith ddechrau ar 6 Hydref 2025.
- 13.9.2 Oni bai y caiff ei derfynu'n gynnar, bydd y fframwaith yn para am gyfnod o 12 mis ac yn dod i ben ar 30 Medi 2026.
- 13.9.3 Yn ôl disgresiwn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unig, gellir ymestyn y fframwaith am 24 mis arall, mewn dau randaliad 12 mis ar wahân, sy'n golygu mai'r dyddiad terfynu hwyraf sy'n bosibl yw 30 Medi 2028.

14. Y Broses Asesu

14.1 Trosolwg o'r Broses Asesu

14.1.1 Mae tair rhan i'r Broses Asesu fel y nodir isod:

1. Holiadur Cymhwyso;
2. Meini Prawf Dyfarniad Ansawdd; a
3. Meini Prawf Dyfarniad Masnachol.

Mae'n ofynnol i'r rheini sy'n tendro ymateb yn llawn i bob rhan er mwyn gallu ystyried bod eu cais yn cydymffurfio ac yn gymwys i'w gynnwys yn y broses werthuso.

14.1.2 Mae'r Holiadur Cymhwyso, a ddarperir fel templed ategol i'w lenwi o'r enw '*Fframwaith Cynhyrchu Fideo (LSHW.003.2025) - Holiadur Cymhwyso*', yn cynnwys nifer o gwestiynau cymhwyso lle mae'n rhaid i'r rheini sy'n tendro hunanardystio bod eu sefydliad yn bodloni gofynion gorfodol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (drwy ymateb yn unol â'r cyfarwyddiadau ym mhob achos).

14.1.2.1 Mae'r Holiadur Cymhwyso yn cynnwys nifer o gwestiynau Llwyddo / Methu; oni bai y nodir yn glir fel arall, lle bynnag y nodir bod cwestiwn yn un Llwyddo / Methu, ystyrir bod ateb 'Na' yn fethiant i fodloni gofynion sylfaenol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a bydd yn annilysu ymateb y sawl sy'n tendro. Bydd yr ymateb yn cael ei ddiystyru ac ni fydd yn cael ei werthuso ymhellach.

14.1.3 Bydd ymatebion sy'n bodloni holl feini prawf yr Holiadur Cymhwyso yn symud ymlaen i gam nesaf y broses werthuso; y gwerthusiad Ansawdd a Masnachol. Mae'r meini prawf dyfarnu wedi'u nodi isod.

14.2 Meini Prawf Dyfarnu

14.2.1 Bydd y cytundeb (os caiff ei ddyfarnu) yn mynd i'r Cyflenwr sy'n cyflwyno'r Tendr Mwyaf Manteisiol (MAT), a hynny o ran gwerth am arian ar sail y meini prawf dyfarnu a nodir isod.

Cyf	Cwestiwn	Pwysoliad	Nifer Uchaf o Dudalennau
Meini Prawf Ansawdd			
C1	Darparu hyd at 3 Astudiaeth Achos sy'n dangos profiad blaenorol diweddar (yn ystod y 3 blynedd diwethaf) eich sefydliad o gynhyrchu fideos, yn debyg i ofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unol â Rhannau 2 (Trosolwg) a 13 (Manyleb). <i>Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr ymateb i C1 yn cael ei werthuso yn ei gyfanrwydd ac yn cael un sgôr yn unol â methodoleg sgorio Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru waeth sawl enghraifft o Astudiaethau Achos sy'n cael eu cyflwyno.</i>	15%	3 Dudalen A4
C2	Darparu hyd at 3 enghraifft o Astudiaethau Achos sy'n dangos profiad blaenorol (yn ystod y 3 blynedd diwethaf) eich sefydliad o gynhyrchu fideos yn y Gymraeg, yn debyg i ofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. <i>Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr ymateb i C2 yn cael ei werthuso yn ei gyfanrwydd ac yn cael un sgôr yn unol â methodoleg sgorio Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru waeth sawl enghraifft o Astudiaethau Achos sy'n cael eu cyflwyno.</i>	15%	3 Dudalen A4

C3	Disgrifiwch yn fanwl sut mae eich sefydliad yn rheoli'r gwaith o gyflawni cynhyrchiad fideo yn llwyddiannus, o'r dechrau (derbyn briff y cleient) i'r diwedd (darparu fideos wedi'u cwblhau). Dylech ddangos yn glir sut mae eich sefydliad yn sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gwblhau'n effeithiol yn unol ag amserlenni a therfynau amser y prosiect, a manylion y ffordd mae eich sefydliad yn rheoli prosiectau ac ansawdd. <i>Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr ymateb i C3 yn cael ei werthuso yn ei gyfanrwydd ac yn cael un sgôr yn unol â methodoleg sgorio Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (h.y. nid oes gan y cwestiwn is-feini prawf).</i>	20%	2 Dudalen A4
C4	Disgrifiwch y systemau, y prosesau, y gweithdrefnau, yr offer, y dulliau (ac ati) y mae eich sefydliad yn eu defnyddio i sicrhau bod cynnwys a chynhyrchiadau fideo Cymraeg cywir ac o safon yn cael eu darparu'n gyson. <i>Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd yr ymateb i C4 yn cael ei werthuso yn ei gyfanrwydd ac yn cael un sgôr yn unol â methodoleg sgorio Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru</i>	20%	2 Dudalen A4
Cyfanswm y Sgôr Ansawdd sydd ar gael:			70%
Meini Prawf Masnachol			
Rhestr o Gyfraddau Llenwch a dychwelwch Lyfr Gwaith Ymateb Masnachol drwy lenwi Rhestr o Gyfraddau ar gyfer eich sefydliad. Bydd cyfanswm costau'r Rhestr o Gyfraddau yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynnal y gwerthusiad Masnachol. Bwriad y Rhestr o Gyfraddau yw ymdrin â'r prif weithgareddau sy'n gysylltiedig â Chynhyrchu Fideo, yn unol â gofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unol â Rhan 13 (y Fanyleb). Sylwch y bydd yr holl gyfraddau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhestr o Gyfraddau yn aros yn sefydlog am 24 mis cyntaf y Fframwaith.			30%
Cyfanswm y Sgôr Masnachol sydd ar gael:			30%
Cyfanswm y Sgôr Tendir sydd ar gael:			100%

14.2.2 Y sgôr uchaf y gellir ei rhoi i'r tendr yw 100%.

14.2.3 Bydd 70% o'r 100% sydd ar gael yn cael ei roi i'r Asesiad Ansawdd. Bydd yr Asesiad Ansawdd yn cael ei gynnal ar ôl y fethodoleg sgorio a ddarperir yn Atodiad 1.

14.2.4 Ar gyfer yr Asesiad Ansawdd, mae'n ofynnol i'r rheini sy'n tendro lenwi a dychwelyd templed ymateb Ansawdd drwy ateb bob un o'r cwestiynau Ansawdd yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn y ddogfen dempled ac yn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro. Mae'r templed ymateb Ansawdd yn cael ei ddarparu fel atodiad ategol o'r enw 'Fframwaith Cynhyrchu Fideo (LSHW.003.2025) - Templed Ymateb Ansawdd.'

14.2.5 Bydd y 30% sy'n weddill o'r 100% sydd ar gael yn cael ei roi i'r Asesiad Masnachol.

14.2.6 Ar gyfer yr Asesiad Masnachol mae'n ofynnol i'r rhai sy'n tendro lenwi a dychwelyd llyfr gwaith ymateb Masnachol drwy nodi'r wybodaeth y gofynnir amdani yn unol â chanllawiau'r llyfr gwaith. Mae'r llyfr gwaith ymateb Masnachol yn cael ei ddarparu fel atodiad ategol o'r enw 'Fframwaith Cynhyrchu Fideo – Llyfr Gwaith Ymateb Masnachol (LSHW.003.2025).'

14.2.7 Bydd yr asesiad Masnachol yn cael ei werthuso ar sail gymesurool yn erbyn y gorau, a defnyddir y cyfrifiadau canlynol i'w werthuso:

Rhan	Cyfrifiad Gwerthuso	Pwysoliad
Cyfanswm y Rhestr o Gyfraddau	(30%) / (Cyfanswm Cost y Flwyddyn / Cyfanswm Cost Isaf y Flwyddyn y sawl sy'n Tendro)	30%
Cyfanswm y Sgôr Fasnachol sydd ar gael:		30%

14.2.9 Bydd cyfanswm y sgôr Ansawdd a chyfanswm y sgôr Fasnachol yn cael eu cyfuno i roi cyfanswm sgôr y tendr. Bernir mai'r tendr sy'n cydymffurfio ac â'r sgôr uchaf yw'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd (MAT).

14.5 Diffyg cydymffurfio

14.5.1 Bydd y cynigion tendr a dderbynnir yn cael eu gwerthuso i ddechrau i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r gofynion ymateb gorfodol. Gall peidio â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau ymateb neu beidio â darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani annilysu'r cynnig yn llwyr, yn ôl disgrisiwn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unig.

14.5.2 Os na chydymffurfir â'r fanyleb yn ystod cyfnod y contract, dilynir y weithdrefn ganlynol os bydd yn cael ei ddyfarnu:

- Hysbysiad o'r gŵyn a'r angen i gydymffurfio;
- Hysbysiad o arferion annerbyniol a/neu achos difrifol o beidio â chydymffurfio â'r fanyleb;
- Troi at amodau'r contract.

14.6 Statws Ariannol ac Adnoddau

14.6.1 Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn dymuno sicrhau bod gan y rhai sy'n tendro yr adnoddau a'r statws ariannol angenrheidiol i fodloni eu rhwymedigaethau drwy gydol oes y contract. Gall hyn gynnwys (pan fo'n briodol) ystyried lefel ymrwymadau gwaith y contractwr ar hyn o bryd ac effaith bosibl dyfarnu'r contract ar adnoddau.

14.6.2 Wrth benderfynu cyflwyno ymateb i'r tendr neu beidio, dylai'r rhai sy'n tendro hefyd ystyried a bod yn ymwybodol o risgiau bod yn or-ddibynnol ar fusnes Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, neu yn wir fusnes unrhyw gwsmer. Wrth wneud hynny, dylai'r rhai sy'n tendro ystyried enillion o unrhyw waith arall a wneir i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ogystal â'r enillion posibl o'r contract hwn.

14.7 Canllawiau Pellach

14.7.1 Rhaid i'r sawl sy'n tendro edrych ar y ddogfen Gwahoddiad i Dendro, yn ogystal ag unrhyw ddogfennau ategol, yn llawn gan fod y rhain yn nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu er mwyn i'w hymateb gael ei ystyried yn gyflawn a'i fod yn cydymffurfio. Gellir gwrthod tendrau

anghyflawn neu anghymwys fel rhai nad ydynt yn cydymffurfio, yn ôl disgrisiwn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unig.

- 14.7.2 Diben y cyfarwyddiadau hyn yw sicrhau bod pob cais yn cael ystyriaeth deg a chyfartal. Felly, mae'n bwysig bod y rhai sy'n tendro'n darparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani.
- 14.7.3 Bydd y sawl sy'n tendro yn sicrhau bod pob is-gontractwr, aelod o gonsortïwm a chynghorydd yn glynu wrth delerau'r cyfarwyddiadau hyn yn ogystal ag amodau'r tendr.
- 14.7.4 Cyfrifoldeb y sawl sy'n tendro yw sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn cael ei darparu a'i bod yn gywir ac, os oes amheuaeth ynghylch cynnwys y Gwahoddiad i Dendro a/neu'r dogfennau ategol, ceisio gwybodaeth ychwanegol yn ôl yr angen drwy gwestiynau ffurfiol am eglurhad.
- 14.7.5 Rhaid i'r rhai sy'n tendro wneud yn siŵr eu bod yn darllen pob cwestiwn yn ofalus a'u bod yn ymateb yn unol â'r meini prawf isod:
- Pan ofynnir yn benodol am wybodaeth ategol (h.y. CVs, polisïau, dogfennau prosesau ac ati) gellir ei darparu fel atodiad i'ch ymateb. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd hyn yn ychwanegol at y nifer uchaf o dudalennau a amlinellwyd;
 - Ni fydd gwybodaeth ategol na ofynnwyd amdani'n benodol gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (h.y. atodiadau) yn cael ei hystyried na'i gwerthuso fel rhan o'r cais;
 - Ni ddylai'r sawl sy'n tendro gynnwys dolenni na llwybrau byr at adnoddau allanol (h.y. gwefannau ac ati). Ni fydd y dolenni hyn yn cael eu hagor ac ni fyddant yn cael eu hystyried na'u gwerthuso fel rhan o'r cais;
 - Rhaid i'r sawl sy'n tendro amlinellu yn eu hymateb unrhyw feysydd lle nad ydynt yn bodloni'r gofynion yn llawn;
 - Rhaid i enw'r ffeil(iau) a gyflwynir gynnwys enw eich sefydliad;
 - Ni ddylid nodi unrhyw wybodaeth fasnachol yn yr ymateb Ansawdd; a
 - Rhaid i'r sawl sy'n tendro nodi prisiau fesul eitem ar gyfer yr holl gostau a ragwelir wrth ddarparu'r gwasanaethau arfaethedig yn unol â'u hymateb.

14.8 Dogfennau a Gwybodaeth i'w Cyflwyno

- 14.8.1 Er hwylustod, er mwyn i'ch ymateb i'r tendr gael ei ystyried yn gais sy'n cydymffurfio, mae'n rhaid iddo gynnwys y canlynol:
- Holiadur Cymhwyso wedi'i lenwi (gan gynnwys Ffurflen Dendro wedi'i llofnodi) fel yr amlinellir yn Rhan [14.1.2](#);
 - Ymateb i'r Meini Prawf Dyfarnu fel yr amlinellir yn [Rhan 14.2.4](#), h.y. ymateb i bob un o'r cwestiynau Ansawdd drwy dempled ymateb Ansawdd wedi'i lenwi; a
 - Llyfr gwaith Ymateb Masnachol wedi'i lenwi fel yr amlinellwyd yn Rhan [14.2.6](#).

ATODIAD 1: Canllawiau Gwerthuso a Methodoleg Sgorio

Bydd Meini Prawf Gwerthuso Dyfarnu'r Contract ([Rhan 14.2.1](#)) yn cael eu hasesu yn erbyn Tabl Sgorio Gwerthusiad Ansawdd A1.

Tabl A1: Tabl Sgorio Gwerthusiad Ansawdd

Gallu	Tystiolaeth	Sylw	Sgôr
Mae'n amlwg bod y sawl sy'n tendro yn gallu bodloni anghenion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	- Mae'r dystiolaeth yn gyson, yn gynhwysfawr, yn gadarn, yn uniongyrchol berthnasol i'r prosiect ym mhob agwedd ac yn gredadwy iawn. - Ymateb clir, cryno a pherthnasol sy'n dangos dealltwriaeth ragorol o'r pwnc ac yn bodloni holl ddisgwyliadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.	Hyder Llwyfwr	10
Mae'n debygol y bydd y sawl sy'n tendro yn gallu bodloni anghenion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.	- Mae'r dystiolaeth yn ddigonol (mewn termau ansoddol), yn gredadwy ac yn argyhoeddi. - Mae'r sawl sy'n tendro wedi dangos yn glir ac yn fanwl sut y bydd yn bodloni gofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fel yr amlinellir yn y Fanyleb.	Hyder	8
Risg fechan na fydd y sawl sy'n tendro yn gallu bodloni anghenion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.	- Mae mân fylchau yn y dystiolaeth, neu i ryw raddau nid yw'n argyhoeddi, nid yw'n gredadwy neu mae'n amherthnasol i'r prosiect. - Mae'r sawl sy'n tendro wedi rhoi gwybodaeth ddigonol sy'n dangos sut y bydd yn bodloni gofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fel yr amlinellir yn y Fanyleb.	Mân Bryderon	6
Risg ganolog na fydd y sawl sy'n tendro yn gallu bodloni anghenion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru	Mae bylchau canolog yn y dystiolaeth, nid yw'n argyhoeddi.	Pryderon Cymedrol	4



	Mae'r sawl sy'n tendro wedi rhoi gwybodaeth gyfyngedig sy'n dangos sut y bydd yn bodloni gofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fel yr amlinellir yn y Fanyleb.		
Risg sylweddol na fydd y sawl sy'n tendro yn gallu bodloni anghenion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.	- Mae bylchau mawr yn y dystiolaeth, mewn sawl ffordd nid yw'n argyhoeddi, nid yw'n gredadwy, neu mae'n amherthnasol i'r prosiect i raddau helaeth. - Mae'r sawl sy'n tendro wedi rhoi ymateb nad yw'n dangos lefel dderbyniol o ddealltwriaeth o'r pwnc ac nid yw'n bodloni'r rhan fwyaf o ofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fel yr amlinellir yn y Fanyleb.	Pryderon Mawr	2
Ni fydd y sawl sy'n tendro yn gallu bodloni anghenion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.	- Heb roi ateb. - Dim dystiolaeth neu dystiolaeth gamarweiniol. - Mae'r sawl sy'n tendro wedi rhoi gwybodaeth sy'n methu â dangos sut y bydd yn bodloni gofynion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fel yr amlinellir yn y Fanyleb.	Annerbyniol	0